Sharing the problem of listening

Roy Claire Potter

Cychwynnodd *The Backward Circle* yn 2015 fel problem gyda thiwtor. Yn awr, nifer o flynyddoedd yn ddiweddarach, rwy'n deal bod y broblem a gefais bryd hynny yn debygol o fod yn amlygiad awtistiaeth. Ar adeg ysgrifennu, rwy'n ysgrifennu i gael asesiad ar gyfer Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth; gall yr asesiad gadarnhau awtistiaeth neu beidio, ond mae'r broses sgrinio ar ei phen ei hun wedi achosi newid persbectif tectonig ar fy ymarfer, a'i ffocws penodol ar iaith wedi'i pherfformio. Er nad yw'n orliwiad i ddweud oedd y tiwtor a oedd gen i broblem hefo oedd yr academydd mwyaf carismatig yn yr ysgol gelf gyfan, gallaf yn awr gydnabod y corwynt llawn o'n cyfarfod cyntaf - sail The Backward Circle - gymaint i'w wneud â'm tueddiad i gael fy hudoli gan arddulliau cyfathrebu cryf ag a wnaeth â'u bwriad i osod y naws ar gyfer ein deinamig.

Daliodd y cyfuniad o'r siarad a'r iaith y corff y tiwtor fy sylw yn ystod ein cyfarfod cyntaf. Daliodd yw'r gair amdano. Nid oedd y rhwyd y tiwtor eu hunain ond fy llinellau ymholi mewnol; monitro a datgodio cyseiniannau rhwng ystyron llafar ac ystumiol a sut roeddent yn gofyn am ymatebion penodol gennyf. Gallwn i glywed beth oedd yn cael ei ddweud, ond ni allaf ddweud fy mod yn gwrando oherwydd fy mod yn gwybod nad oeddwn yn myfyrio ar wrthrych ein trafodaeth-fy ngwaith celf. Gan bwyso ymlaen ataf, sy'n golygu difrifwch wedi'i gymysgu â sylw, gwenodd a nodiodd y tiwtor wrth wneud awgrym ac felly cefais fy hun yn yr un modd, yn cytuno'n animeiddiedig â phwy a ŵyr beth. Ffliciodd y tiwtor eu gwallt a phwyso yn ôl i ddechrau hanesyn o'r neilltu; Fe wnes i ail-leoli fy nghorff fy hun yn unol â hynny, gan actio'r newid yn y gofrestru yn fy meddwl fy hun, gan ddangos fy mod i'n cadw i fyny.

Ar ôl hanner awr o fonitro dwys, roeddwn yn flinedig ac wedi cynhyrfu. Es adref wedi diflasu ac yn rhwystredig fy mod wedi methu â chadw gwarchod o fy ystyr fy hun a dweud yr hyn yr oeddwn ei eisiau yn wyneb person arall. Berwodd y rhwystredigaeth drosodd: oedd y tiwtor wedi gwneud hyn. Roedd y bastard wedi ceisio fy huda a fy rhoi yn fy lle! Wel, ni fyddwn yn ei dderbyn; byddai'r tiwtorial nesaf gefn wrth gefn. Roedd angen i mi weithio pethau allan am fy ngwaith celf, nid gwastraffu amser yn gwerthuso ffordd y tiwtor! Oeddent yn garismatig ond roeddent hefyd yn groesawgar o anghytundeb. Cytunodd y tiwtor yn rhwydd-dim gwthio yn ôl, dim ond chwilfrydedd a chefnogaeth. Roeddwn yn gobeithio unwaith y cefais ryddhad o fonitro, y byddwn yn gallu gwrando a dweud fy meddyliau.

Mae bell hooks an trafod y perthynas o wrando ar lais yn ei llyfr *Teaching to Transgress: Education as the Practice of Freedom*. 'I glywed ein gilydd (y sŵn o wahanol leisiau), i wrando ar ein gilydd, yn ymarfer mewn cydnabyddiaeth,' mae hi'n ysgrifennu (1994, t.41). Mae hi'n tanlinellu'r pwysigrwydd unigol o fyfyrwyr yn dod o hyd i'w llais eu hunain yn yr ystafell dosbarth fel rhan o hyn. 'Dydw i ddim yn golygu ond yn nhermau o ran sut mae hi'n enwi ei phrofiad personol,' mae hooks yn ysgrifennu, 'ond sut mae hi'n holi profiadau eraill, a sut mae hi'n ymateb i wybodaeth a gyflwynir' (1994, t.149). Y cyfranogiad hwn ym materion yr ystafell ddosbarth sy'n gyfystyr â llais yn ymarfer addysgu hooks, a thrwy siarad ag un llais y gallai eraill eich clywed a'ch adnabod. Mae hyn yn ymddangos yn fater o gwrs mewn addysg Celf Gain lle mae holi profiadau eraill yn sail i'w brif ddull addysgu: beirniadaeth y grŵp. Ond mae'n bosib mynychu 'crits' drwy'r flwyddyn a dal i beidio â dod o hyd i'ch llais, yn lle hynny dim ond dysgu effeithio ar ffordd o siarad. Mae gwaith hooks mewn addysgeg feirniadol yn ein hatgoffa bod yn rhaid i ni newid strwythurau addysgeg bresennol sy'n seiliedig ar awdurdod llais yr athro er mwyn hyrwyddo gwrando.

Nid oedd y tiwtorial cefn wrth gefn mor anuniongred â hynny mewn gwirionedd. Mae gan addysg gelf etifeddiaeth o grits wythnos o hyd ac arbrofion ystafell dan glo ond daeth â chydbwysedd i ddeinamig fi gyda'r tiwtor. Anweddodd fy rhwystredigaeth a rhoddais y gorau i feio'r tiwtor oherwydd i mi ddod o hyd i rywfaint o le i gael llais ynddo. Fe wnes i gamarwain rhyddhad personol am ddatblygiad disgyblu, serch hynny. Fe wnes i roi'r gorau i holi fy materion fy hun gyda chyfathrebu ac yn lle hynny, derbyniais y syniad bod fy ymyrraeth gyda'r tiwtor wedi bod yn sylw ar y ffurf addysgeg ei hun - y tiwtorial. Darllenais yn

eiddgar ar Feirniadaeth Sefydliadol fel ymarfer celf ac yn y stiwdio, roeddwn yn brysur gyda phethau pwysicach eraill fel ysgrifennu monologau arbrofol.

Bydd unrhyw artist sy'n gweithio trwy'r goblygiadau o ysgrifennu naratif goddrychol yn dod yn erbyn dau rwystr yn ystod cyfleoedd i gyflwyno gwaith ar y gweill i grŵp. Y cyntaf yw wynebau cydymdeimladol eraill na allant wahanu eu profiad esthetig o'r ysgrifennu oddi wrth ffaith yr ysgrifennwr, ac felly cwympo swyddogaethau'r adroddwr a'r awdur mewn un weithred o ddweud rhywbeth wrth unrhyw un fydd yn fodlon gwrando. Mae hwn yn gors i fyfyriwr sy'n arbrofi gyda ffurf ar draws disgyblaethau, ac yn arwain at bob math o grwydradau sy'n gosod cystrawennau telynegol fel dim byd ond gorchudd ar gyfer therapi. Yr ail rwystr yw'r defnydd anghysurus o bellter critigol er mwyn gwyro cynnwys anodd neu emosiynol. Yn aml mae'n edrych fel haeriad ar berthnasedd - y clip papur yn hytrach na defnydd y stwffwl, effaith pwysau'r papur a gall hyn gynnwys diystyrwch pigog ar gyfer canoli profiadau bywyd anodd wrth wneud gwaith celf- 'i gyd yn fi, fi, fi,' fel y clywais unwaith.

'Mae llawer o athrawon sy'n feirniadol o gynnwys naratif cyffesol yn yr ystafell ddosbarth… heb y sgil sydd ei hangen i hwyluso deialog,' mae bell yn nodi (1994, t.151), heb enwi unrhyw enwau. Mae pob ystafell ddosbarth yn cynnwys pobl sy'n hoff o sain eu llais eu hunain neu sy'n methu â sefydlu cysylltiadau rhwng eu hanesynnau a'r mater dan sylw, felly er mwyn hwyluso'r deialog mae'n rhaid ei drefnu mewn rhyw fodd. I mi fy hun, ar y pryd yn fyfyriwr ag awydd i leihau wynebau ac a oedd yn sydyn yn rhugl mewn beirniadaeth sefydliadol ar ôl dau diwtorial yn unig, fy nghynllun i hwyluso deialog yn y crit grŵp ar ddod oedd troi pawb yn erbyn ei gilydd.

Fe ddarlledodd *Between The Covers* am y tro cyntaf y llynedd ym mis Hydref ar BBC2. Daeth y darllediad ddyddiau cyn y cyflwyniad o'r system cyfyngu tair haen drychinebus a ragflaenodd yr ail gyfnod cloi cenedlaethol y DU. Anfonwyd y system haen yn anghymesur gogledd Lloegr i mewn i anhrefn gyda dryswch ynghylch ffiniau terfyn, teithio a masnach. Daliodd yfwyr penwythnos manteisgar y trên neu mewn rhai achosion cerddodd i lawr y ffordd, i dafarndai mewn ardaloedd â haenau is, tra bod y rhai ymwybodol o'r rheolau yn ein plith - yn cynnwys fi fy hun - wedi setlo i lawr ar gyfer nos Wener 'amharchus, ddifyr, direidus' gyda'r gogleddwr proffesiynol a'r cyflwynydd radio Sarah Cox. Yn nyfnder yr anhrefn pandemig, byddai'r sioe siarad enwogion newydd lle byddai 'llyfrau'n tanio'r smaldod' a fydd yn 'dod â'r genedl ynghyd trwy rannu'r mwynhad o ddarllen,' dod â'r genedl ynghyd trwy rannu'r mwynhad o ddarllen, honnodd y broliant ar iPlayer.

Roedd yn ddigon hawdd i ddychmygu dod â phobl ynghyd ar raddfa genedlaethol yn ystod y pandemig. Roedd yn edrych fel pobl yn eistedd ar eu soffas yn Tweetio â llaw rydd ond doedd gen i ddim syniad beth oedd ystyr 'rhannu'r mwynhad o ddarllen'. Roedd yn swnio'n amheus. Roedd dadleoliad a oedd yn gwenu yn y geiriad. Roedd unig bwrpas clwb llyfrau - cyd-ddarllen llyfr penodol - wedi'i ddileu. Gyda'r llyfr ar goll y cyfan oedd ar ôl oedd y profiad o ystyried un. Yn ddiweddarach darganfyddai nad hwn oedd yr unig amnewidiad yn nyluniad y rhaglen. Chwe mis ar ôl y gyfres gyntaf a rhywfaint o wasg negyddol yn The Telegraph -gorlawn; bach iawn o drafodaeth amser- cyhoeddodd y BBC ail gyfres, wedi'i hailwampio ychydig ond yn dal i ganolbwyntio ar smaldod. Honnodd y Comisiynydd Emma Cahusac fod y sioe yn barhad o ymrwymiad BBC Arts i 'rhaglenni llyfrau' (BBC 2021, para.7) -nid llenyddiaeth, na ffuglen, na hyd yn oed llyfrau yn unig ond, rhaglenni llyfrau.

Sylweddolaf ar ôl i'r twrf doniol dwl yr ymadrodd 'rhaglenni llyfrau' godi, y gall hyn i gyd ymddangos yn weddol ddiniwed. Mae'r BBC, wedi'r cyfan, yn ddarlledwr ac yn gwneud rhaglenni nid lyfrau. Fodd bynnag, mae'r ymrwymiad, fel bod un, yn swil o gyrraedd y gwrthrych tybiedig-llenyddiaeth, ffuglen, llyfrau-yn rhinwedd enwi dull ei gyflwyniad. Mae'r ymrwymiad yn glanio rhagfarn ar raglenni ac i mi mae hynny'n gyfystyr â thric. Mae BBC Arts wedi ymrwymo i'r cynhyrchiad o'r BBC. Ond arhoswch! Mae'r smaldod angerddol a gafaelgar y gwesteion yn gwneud i ni i gyd eisiau rhoi cynnig ar lyfrau na fyddem wedi'u codi fel arall,' cynigiodd Amanda Ross, Prif Swyddog Gweithredol is-gwmni cynhyrchu'r rhaglen, Cactus TV, mewn ymgais i ailffocysu ar y gwrthrych o drafodaeth (BBC 2021, para.8). Hwn yw'r 'grŵp llyfrau ffantasi eithaf,' parhaodd, a chyda hynny roedd y llyfrau wedi diflannu eto.

Mae'r cyfeiriad at bêl-droed ffantasi-gêm raddio lle cronnir pwyntiau mewn cynghrair ddychmygol yn seiliedig ar berfformiadau'r chwaraewyr yn y byd go iawn-yn gyfatebiaeth ddadlennol. Po fwyaf y smaldod

sydd gan y gwestai, y mwyaf gwerthfawr yw'r llyfr yr oeddent wedi'i ddarllen unwaith. Ar ba seiliau eraill y gallai'r genedl seilio ei barn? Nid oeddent hyd yn oed wedi darllen yr un llyfr felly nid oedd unrhyw gymariaethau. Ddeng munud i mewn i'r bennod gyntaf, mi wnes i droi'r teledu i ffwrdd: Roeddwn yn hapus iawn bod y gwesteion enwog i gyd, yn breifat ac ar wahân, wedi darllen rhai llyfrau yn y gorffennol agos neu bell, yr oeddent naill ai wedi hoffi neu ddim ac yn wynebu ei gilydd mewn cylch ar y teledu, yn teimlo bod hyn yn gytûn.

Penderfynais y byddwn yn ymuno â'r genedl ar Twitter wedi'r cyfan:

> ‘Mewn ymateb i raglen clwb llyfrau newydd gwrth-ddeallusol lletchwith af, diffyniadol a chachiad llwyr ar deledu’r DU, byddaf yn cynnal grŵp darllen ar gyfer nofel ffuglen wyddonol iwtopaidd ffeministaidd, *Woman On The Edge Of Time* gan Margaret Piercy ar gyfer pobl nad ydynt wedi ei darllen ac sydd â diddordeb. Bob Mercher 6yh - 8yh o 21 Hydref am 8 wythnos. 10 person ar y mwyaf ar Zoom. Pdfs pennodau/llyfrau sain ar gael/copïau caled am ddim i bobl sgint. E-bostiwch pam rydych chi'n ei ffansio a pha fformat rydych chi ei eisiau. Iechyd da!’

Roedd yr alwad agored yn boblogaidd. O fewn wythnos roedd deg o bobl yn barod i ymuno. Fe wnes i grafu o amgylch y rhyngrwyd ar gyfer y fersiwn llyfr sain, anfonodd un o aelodau'r grŵp gopi pdf, a dechreuodd pobl rhannu dolenni i lyfrau clawr papur rhad mewn trywydd e-bost. Roeddem yn gymysgedd o artistiaid, cerddorion, awduron, llyfrgellwyr, myfyrwyr ac roedd ein rhesymau dros ymuno yn amrywiol. I rai, dyma oedd eu tro cyntaf yn darllen ffuglen wyddonol, roedd un neu ddau yn gwneud ymchwil ffeministaidd ehangach, ac i eraill roedd y grŵp llyfrau yn fwy o gymdeithasu pandemig, ac roedd cymaint ohono wedi bod ar Zoom am yr wyth mis diwethaf. Roedd ein cyfarfod cyntaf yn sesiwn blasu. Roeddwn i'n meddwl bod hon yn strategaeth ymadael dda ar gyfer pobl nad oeddent eisiau bod yn y grŵp neu nad oeddent yn hoffi sut oedd y llyfr yn swnio. Rhoesom hunan-gyflwyniadau cyffredinol a gwnaethom wrando ar Bennod Un. Roedd y llyfr sain yn swnio o siaradwyr fy ngliniadur, wedi'i dolennu i'w feicroffon, trwy Zoom, a thros y Rhyngrwyd cyn chwarae allan tuag at y cyfranogwyr o'u dyfeisiau priodol. Mae'r disgrifiad sgematig hwn o'n cysylltedd yr un mor annigonol a naïf ag unrhyw gyfrif amhriodol arall o gyfarfyddiad symudol. Cynnal llyfr sain ad hoc, stori radio môr-leidr dwy awr! Roedd pob un ohonom yn rhydd i wneud beth hoffwn, camerâu i ffwrdd, yn gwrando ar yr un llais yn dweud wrthym am le arall yn gyfan gwbl. Roedd pob un ohonom yn rhydd i wneud beth hoffwn, camerâu i ffwrdd, yn gwrando ar yr un llais yn dweud wrthym am le arall yn gyfan gwbl. Cefais, cefais fy symud.

Mae *Woman On The Edge Of Time* yn stori fenyw sefydliadol, Connie, sydd naill ai'n rhithdybiol neu sydd mewn gwirionedd yn ymweld â chymuned iwtopaidd y dyfodol trwy deithio amser telepathig. Wedi’i hysgrifennu a’i chyhoeddi'n gyntaf ar anterth y Women’s Liberation Movement yn America'r 70au, mae nofel Marge Piercy yn cael ei grwpio’n aml ynghyd â nofelau ffuglen wyddonol anferth eraill y cyfnod hwnnw ar gyfer ei harchwiliad dyfaliadol o rywedd mewn cymdeithas. Mae misogyny, hiliaeth systemig a dirmyg tuag at y tlawd yn croestorri’n dreisgar ac yn drasig ar bwyntiau yn naratif Connie, gan droelli galar ac iselder ysbryd sy’n drilio trwyddi ym mhob cyfarfod. Mae wedi ei seibio, os nad yw wedi ennill allan, gan yr erotig adferol o gyfeillgarwch o fewn muriau'r sefydliad a byd y dyfodol y mae'n ymweld â hi yn rheolaidd er gwaethaf ei charcharu.

Roedd natur dros dro'r darllediad yn ystod ein cyfarfod cyntaf yn cyd-fynd â'r ymdrech i gynnal lle a oedd yn agored i drafodaeth grŵp. Roedd rhai atseiniau gyda thema'r llyfr o gyfeillgarwch pell. Roedd yn hudolus ac yn obeithiol yn y ffordd honno y dylai trefnu gwleidyddol fod. Rwy’n parchu ac yn hoff o holl aelodau’r grŵp llyfrau ac er fy mod yn ymwybodol iawn fy mod wedi cychwyn yr holl beth, mi wnes i ymdrechu i gymryd rhan ar ôl y cyfarfod cyntaf hwn. Bob dydd Mercher roeddwn i'n teimlo amharodrwydd ymgripiol i wneud unrhyw beth. Nodais ofynion gormesol ar fy amser ac egni ym mhopeth, o eirio e-bost i'r ffaith o wneud cinio. Yn yr awr olaf cyn galwad Zoom y grŵp, roeddwn i naill ai’n gweiddi ar neu at fy mhartner, ac yn crio amdano, yn crio am grio amdano. Rwy'n casáu bod mewn grwpiau. Nid wyf yn golygu hyn mewn ffordd oddi ar law. Rwy'n ei olygu mewn ffordd rwystredig, cythrudd ac yn y pen draw ffordd ddiflas iawn. Yn dri deg pump, rydw i'n sâl i ddannedd cefn o deimlo fel rydw i'n ei wneud ynglŷn â bod mewn grwpiau. Maen nhw'n fy llethu gyda'r gwaith o fonitro sut mae pethau'n cael eu dweud a'u golygu, a gweithio allan

sut rydw i fod i siarad ac ymddangos i sawl person gwahanol ar yr un pryd. Rwy'n well un ar un, rwy'n cael fy hun yn fwyfwy yn dweud wrth gyfrif am fy nifer gyfyngedig o ffrindiau.

Y peth gwirioneddol ddinistriol yw y bydd pawb yn y grŵp llyfrau wedi cael eu cyfran gyfartal o rwystrau ac eto fe wnaethon ni rannu llawer o eiliadau defnyddiol, doniol a phwysig. Dim ond ychydig ohonom a allai ei wneud un wythnos felly gwnaethom lunio golygfeydd a gwisgoedd o'r llyfr wrth inni eu dychmygu. Roedd yn ddoniol iawn. Deuthum i adnabod rhai pobl yn well. Byddaf fy hun ac aelod arall o'r grŵp yn ymuno â gweithdy ysgrifennu ffuglen cwiar gyda'i gilydd yn ddiweddarach eleni. Cafwyd hyd i gerdd wedi'i theipio gan Marge Piercy mewn ffeil bocs gan artist a oedd yn curadu arddangosfa o'i phrosiect , *The Mobile Feminist Library*, ar gyfer MOSTYN yn haf 2021, tra bod artist arall wedi dod o hyd i lythyr agored wedi'i lofnodi gan Piercy yn 2013 yn galaru am ddatblygiadau mewn astudiaethau rhywedd ers y 60au a'r 70au, ac yn awgrymu y byddai trefnu ffeministaidd yn iawn i eithrio pobl draws. Roeddwn yn falch o'r eglurhad hwnnw ar ffeministiaeth wag Piercy, fel yr oedd yr artistiaid a oedd yn gweithio ar yr arddangosfa archif. Roedd y grŵp yn grŵp da ac nid oedd unrhyw sail i'm hymddygiad athrist yn y bobl eu hunain. Roeddem yn un ar ddeg teilsen ar sgrin y cyfrifiadur gyda chysylltiad llygad ffug, galluoedd meicroffon gohiriedig ac er nad oeddem yn yr un lle, roeddem i gyd yn wynebu ein gilydd, ar yr un pryd: dyna oedd fy mhroblem.

Mae *The Backward Circle* yn un ffordd o siarad amdano ond mae *The Outward-Facing Circle* o leiaf yn rhoi syniad o wynebau chi a ble maent yn cyfeirio felly byddaf yn cyfeirio ati fel 'na o hyn ymlaen. Dyluniais *The Outward-Facing Circle* i hwyluso deialog o fy ysgrifennu yn ystod fy nghyflwyniad grŵp. Dyma oedd fy 'cerddorfa' fel y byddai bell hooks yn ei ddweud. Byddem yn eistedd yn y cylch democrataidd arferol ond gydag un addasiad-byddai ein cadeiriau'n cael eu troi oddi wrth ein gilydd. Trwy gael gwared ar agweddau gweledol cyfathrebu fel y gwnes i yn y tiwtorial cefn wrth gefn, roeddwn i'n gobeithio y byddem ni'n cael ein hunain ar ein pennau ein hunain, yn gwrando ar leisiau. Heb ddylanwad mynegiant wyneb pobl eraill, cytundebau ystumiol a chaniatâd ymhlyg i siarad, na sut roedd pobl yn tueddu i symud tuag at siaradwr neu'n troi oddi wrthynt, beth oedd eu dwylo yn ei wneud, lle syrthiodd eu syllu, tybed a fyddai pob un ohonom yn dod o hyd i'n tir ein hunain i siarad ohono, fel y gwnes i o dan yr amodau hyn-os fyddai'n bosibl dod at ein gilydd fel hyn, heb eu monitro.

Roedd yr ysgrifennu a gyflwynais o flaen y grŵp yn fonolog dwy dudalen heb ei olygu a ysgrifennwyd ar deipiadur â llaw. Fe wnaeth y cymeriad-adroddwr roi naratif at ei gilydd ar frys o olygfeydd domestig ac atgofion corfforol wrth edrych ar ddelweddau o noethni, platiau wedi'u malu, tymhorau ac enwau ansicr strydoedd y ddinas - roedd yn awgrymu trais ond ni wnaeth ei sefydlu. Effeithiodd yr iaith ysgrifenedig ar ansefydlogi hefyd. Roedd yn orlawn â chamgymeriadau gramadegol, gwallau argraffyddol ac effeithiau smudiog camweithrediad y peiriant i'w gweld o amgylch ymylon cymeriadau. Llythrennau yn gorwedd dros lythrennau yn cuddio geiriau. Gellid olrhain gwybodaeth am law'r gweithredwr-fy llaw i-yn y marciau yma a hyn, fe ddywedwyd wrthyf, oedd yn pylu rolau cymeriad, teipydd, awdur. Toriadau llinell anllad a brawddegau trych a oedd yn ddyledus am eu plygiad aphoristig i'm cymalau bysedd mewn sioc, a wnaed fel darlleniad frenetig. Roedd llais y testun yn fyr ei gwynt, gan adrodd stori yn gegog a oedd yr un mor doredig ac ar ymyl.

Roedd yn rhaid i bawb fod ar eu pennau eu hunain gyda'r llais hwnnw yn ystod y crit, yn union fel y buon nhw'r noson o'r blaen yn darllen wrth baratoi. Dyma gyflwr byw o ddarllen ffuglen person cyntaf: syrthio i mewn i amser a gofod perthynnas â'r llais naratif rydych chi'n dod ar ei draws, gan gwrdd â nhw yn rhywle yn y canol i gael gwybod rhywbeth. Efallai fy mod yn gofyn i'm cyd-fyfyrwyr siarad o'r amser a'r lle hwnnw, i helpu i'w wneud yn gymunedol i mi. Os yw deg o bobl i gyd yn darllen am faes penodol ar yr un pryd, onid ydyn nhw i gyd yn y maes hwnnw gyda'i gilydd? Roedd hyn bob amser yn fy nharo fel cysyniad radical ond yng nghyd-destun yr ymson penodol hwnnw, y gegin gythryblus honno o lestri wedi torri a noethni ansicr, gallaf weld fy mod wedi adeiladu agosatrwydd digymell ac unffordd. Ymddiheuraf am hynny. Beth bynnag yr oeddwn yn gobeithio amdano, siaradwn yn bennaf am ba mor rhyfedd oedd hi'n teimlo i siarad â'n gilydd yn y ffordd honno—wedi gwahanu ond gyda'n gilydd yn ein dull o fod ar wahân. Ai dyma gyflwr undod gwleidyddol neu ai atomiaeth gymdeithasol ydoedd? Rwy'n dal i ryfeddu, er fy mod yn amau bod fy 'cerddorfa' yn golygu mai dyna'r olaf.

Dros y blynyddoedd diwethaf, rwyf wedi defnyddio *The Outward-Facing Circle* fel strategaeth addysgu i ymarfer clywed a gwrando yn yr ystafell ddosbarth. Mae wedi bod yn offeryn defnyddiol i ystyried yr dad-gyfeiriadedd gwleidyddol a chymdeithasol y mae Sarah Ahmed yn eu disgrifio yn ei llyfr, *Queer*

Phenomenology: orientations, objects, others. Mae hefyd wedi bod o fudd i'r myfyrdodau grŵp ar y cyfnodau cymunedol a brofwyd gan Stuart Brisley a'r cynulleidfaoedd amrywiol o'i weithiau perfformio estynedig. Mae cyfranogwyr yn dibynnu ar acwsteg o ba bynnag ofod addysgu rydyn ni'n ei gael ein hunain ynddo ac ar eu gallu i sylwi ar newidiadau ar draw a thôn llais siaradwr, y ddiweddeb o batrymau lleferydd, ymadroddion a phetrusderau. Mae gwybod pryd i siarad yn anodd yn yr amodau hyn ond mae bellach yn anodd i bawb. Yr hyder a allai fod gan berson fel arfer er mwyn cymryd lle yn weledol yn cael ei golli iddynt, efallai y bydd y addfwyn yn dod ymlaen. I ddweud, ni allaf eich clywed, yn sydyn gyda'r potensial i olygu'r ddau beth ar unwaith; mae fy nghlyw yn cael ei rwystro, ac, nid wyf yn deall yr hyn yr ydych yn ei olygu. Fodd bynnag, mae cyfranogwyr *The Outward-Facing Circle* wedi bod yn clywed ac yn gweld. Mae absenoldeb cyfathrebu gweledol ar gyfer pobl d/Byddar neu rywun ag anawsterau clywed yn gofyn am ail-raddnodi'r gweithrediad. Yn yr un modd, gall pobl nad ydyn nhw eisoes yn gweld agweddau gweledol cyfathrebu ar raddau mwy neu lai, awgrymu dulliau newydd o fynd ati i'r gêm canfyddiad clywedol.

Cyrhaeddodd Pauline Oliveros wahaniaeth rhwng clywed a gwrando trwy wneud a gwrando ar synau ar y cyd, fel cerddor gweithredol ac ymchwilydd acwstig. 'I glywed' ysgrifennodd yn, *Deep Listening: A Composer's Sound Practice*, 'yw'r modd corfforol sy'n galluogi canfyddiad. I wrando yw rhoi sylw i'r hyn a ganfyddir yn 'acwstig ac yn seicolegol' (2005, t. xxiii). Pe bai'r tiwtorial cefn wrth gefn yn dychwelyd fy ngallu i wrando yna cynyddodd *The Outward-Facing Circle* angen y grŵp i glywed, wrth ddarparu gofod acwstig i ehangu ein canfyddiad o synau-po fwyaf y digwyddodd y clywed, y mwyaf oedd rhoi ein sylw iddo, i graff a dehongli. Am y tro, mae'r cwestiynau ynghylch yr hyn y gallai canfyddiad awtistig fod a sut mae'n gwneud y cydberthynas rhwng sain, llais, gwrando a chymuned yn ddarllenadwy, yn wahanol, yn rhy wrth law i mi fynd i'r afael â nhw'n foddhaol neu'n briodol. Rwy'n ceisio gwrando ar y pethau rydw i wedi'u clywed trwy'r enghreifftiau o ymarfer rydw i wedi'u disgrifio ond mae'r dehongliad o ddirgryniadau acwstig yn destun amser ac oedi. Fel y mae Oliveros yn ei wneud yn glir, weithiau gellir dehongli'r hyn a glywir mewn amrantiad, neu sawl blwyddyn yn ddiweddarach, neu byth! Felly, er bod gen i rywfaint o obaith o dynnu fy nghilgnoad diddiwedd ar gyfathrebu i gau, efallai y byddaf hefyd yn mynd ag ef i'r bed.

Cyfeiriadau

hooks, b. (1994) *Teaching to Transgress: Education as the Practice of Freedom*. New York: Routledge (t.41; tt.149 - 151)
Oliveros, P. (2005) *Deep Listening: A Composer's Sound Practice*. New York: iUniverse Inc. (t. xxiii)
BBC.CO.UK (2021) Between The Covers Series Two [ar-lein] Ar gael yn: https://www.bbc.co.uk/mediacentre/2021/between-the-covers-series-two [Cyrchwyd: 7fed Medi 2021]